

Gwybodaeth i Gleifion yr Uned Llawdriniaeth Ddydd y Genau a'r Geg

Gweithdrefn Lawfeddygol dan Anaesthetig Leol a Thawelydd Mewnwythiennol

Gweithdrefn Lawfeddygol dan Anaesthetig Leol a Thawelydd Mewnwythiennol

Cyn eich apwyntiad

1. **Peidiwch â bwyta unrhyw beth o Hanner nos cyn eich apwyntiad** - mae hyn yn cynnwys bwyta gwm cnoi a melysion wedi berwi.
2. Gallwch gael **sip** o **ddŵr tap clir** hyd at 3 awr cyn eich apwyntiad
3. Peidiwch â gwisgo colur, farnis ewinedd nac ewinedd ffug

Dewch â'r canlynol gyda chi:

- Tabledi neu feddyginiaethau cyfredol.

Mae'n hanfodol eich bod chi'n trefnu:

- Trafnidiaeth adref (nid trafndiaeth gyhoeddus).
- Oedolyn cyfrifol i ddod gyda chi, i'ch hebrwng adref ac yna ar gael i ofalu amdanoch am 24 awr o'r adeg y cewch eich rhyddhau o'r ysbyty.

Wrth gael eich derbyn

1. Bydd nyrs yn eich derbyn a chewch eich gweld gan y tîm clinigol.
2. Cyn eich llawdriniaeth, gofynnir i chi lofnodi ffurflen gydsynio. Bydd cyfle i chi ofyn cwestiynau cyn llofnodi; mae hyn er mwyn sicrhau eich bod yn deall yn llwyr y driniaeth arfaethedig.
3. Mae'n rhaid i blant sydd o dan 16 oed gael oedolyn / gwarcheidwad cyfreithiol i lofnodi'r ffurflen gydsynio.
4. Fe eir â chi i'r theatr a chewch eich cysylltu ag offer monitro felly ceisiwch wisgo top llewys byr neu grys sy'n cau gyda botymau.
5. Rhoddir y tawelydd gyda nodwydd fach yng nghefn y llaw neu yn eich braich. Bydd yn eich gwneud yn gysglyd ond fydd e ddim yn eich rhoi i gysgu.
6. Fe gewch sbectol amddiffyn a chewch eich gorchuddio mewn papur wedi ei ddiheintio.
7. Yna, bydd y llawfeddyg yn rhoi anesthetig lleol i ddideimlo'r ardal sy'n cael ei thrin cyn y llawdriniaeth.
8. Yn ystod y llawdriniaeth, mae'n bosib y cewch ocsigen trwy diwbiau trwyn bach.

Ar ôl eich llawdriniaeth

1. Byddwch yn aros yn yr adran nes y byddwch yn ffit i gael eich rhyddhau; bydd hyn tuag 1 awr ar ôl i chi gael y tawelydd.
2. Am 24 awr wedi i chi gael eich rhyddhau:
 - Ni ddylech yrru
 - Ni ddylech ymdrin ag unrhyw gyfarpar mecanyddol / domestig
 - Ni ddylech lofnodi unrhyw ddogfennau cyfreithiol

3. Unwaith y byddwch gartref, rhaid i chi orffwyso.
4. Cewch apwyntiad dilynol hefyd os bydd angen hynny.

**Os oes gennych chi unrhyw
ymholiadau ynghylch eich
apwyntiad
ffoniwch:**

01633 238372

Os ydych chi'n teimlo'n anhwylyd neu os na allwch fynd i'r apwyntiad, cofiwch gysylltu â'r adran cyn gynted a phosibl, fel y gallan nhw gynnig yr apwyntiad i rywun arall.

**"Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg /
This document is available in English".**